

RHO AMSER I DDARLLEN




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

I Rieni / gofalwyr plant

0-4 mlwydd oed



Manteision darllen




Gall gwella sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad plentyn eu helpu i gael bywyd gwell.

- Bydd darllen gyda'ch gilydd yn dod â chi'n agosach
- Mae'n datblygu iaith
- Mae darllen yn hwyl



Bydd darllen gyda plentyn am ddim ond **10** munud y dydd yn gwneud gwahaniaeth mawr... felly "Rho Amser i Ddarllen"

Cyngor wrth Ddarllen



- 1 Canwch!**
Mae canu caneuon a phenillion yn ffordd wych i'ch plentyn ddysgu sgiliau darllen
- 2 Geiriau ym mhob man!**
Pwyntiwch at eiriau gyda'ch plant, i gael hwyl
- 3 Amrywiwch eich llais**
Newidiwch eich llais, byddwch yn gymeriad - ac actio'r stori, gan ei gwneud yn fyw
- 4 Llyfrau AM DDIM**
Gofynnwch am eich bag llyfrau AM DDIM gan eich ymwelydd iechyd pan fydd eich plentyn yn 9 a 24 mis
- 5 Dangoswch iddyn nhw!**
Gadewch iddyn nhw eich gweld yn darllen a byddwch yn falch o'ch casgliad o lyfrau
- 6 Ychydig yn aml**
Dim ond deg munud y dydd sydd ei angen

Llyfrau Da

Ymlaciwch a mwynhewch y llyfrau da yma.



Dyma lyfr bwrdd i fabanod a phlant bach, i'w ddarllen cyn cysgu. Mae wedi'i ddarlunio'n bert, ac mae'n berffaith i'w rannu neu i blant ei fwynhau ar eu pennau eu hunain



Anturiaethau Cadi, y gath sy'n ymweld â phob un o'i chymdogion yn eu tro




Cyw bach del, ffwr esmwyth ... Pob mathau o bethau i'ch babi eu teimlo yn y llyfr diogel a deniadol hwn sy'n eu cael i ddysgu yn ifanc iawn



Ymunwch â'r Gwningen a'r Hwyaeden wrth iddyn nhw fownsio a siglo ar eu taith drwy gefn gwlad



Llyfr fferm newydd cyffrous; a llyfr ymarferol sy'n gwneud dysgu'n hwyl!




Twts yw'r babi prysura yng Nghymru. Mae'n brysura drwy'r dydd! Llyfr bwrdd cryf lliwgar i blant bach ei fwynhau

Awgrymwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru

Rhagor o wybodaeth



Am ragor o wybodaeth am ddarllen gyda plant o oedran gwahanol ewch i:



darllenynwell.co.uk

Ymunwch â'r llyfrgell leol AM DDIM, sy'n cynnig nifer fawr o bethau – sesiynau adrodd storiâu, digwyddiadau, a llyfrau i'w benthg AM DDIM! Ewch i www.llyfrgell.cymru.org